**Rheoliad 9(1)**

# Ffurflen aseiniad

## I'w chwblhau gan yr aseiniwr/aseinwyr a'r aseinai/aseineion

Yn y ffurflen hon, ystyr "y cytundeb" yw'r cytundeb o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 rhwng y meddiannydd a pherchennog y safle sy'n rhoi'r hawl i'r meddiannydd osod cartref symudol ar lain.

## Adran 1: Y Partïon [gweler nodyn (i)]

Rhwng yr aseiniwr:

[mewnosoder enw a chyfeiriad y person sy'n aseinio'r cytundeb]

A'r aseinai:

[mewnosoder enw a chyfeiriad y person y caiff y cytundeb ei aseinio iddo]

Mae'r aseiniwr yn aseinio'r cytundeb i'r aseinai ynghyd â'r holl hawliau a chyfrifoldebau sydd ynghlwm wrtho.

## Adran 2: Gwerthiannau (ar gyfer cwblhau gwerthiannau cartrefi symudol yn unig, nid ar gyfer rhoi cartrefi symudol yn anrheg)

Mae'r aseinai wedi talu pris prynu o

£ [mewnosoder pris y gwerthiant]

ar gyfer (a) y cartref symudol sydd wedi ei leoli yn:

a (b) ar gyfer aseinio'r cytundeb.

Talu Comisiwn

O'r pris prynu o £ [ ] mae'r aseinai yn cytuno i dalu swm o £ [ ] i berchennog y safle mewn perthynas â'r comisiwn sy'n ddyledus i berchennog y safle o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 [gweler nodyn (ii)].

## Adran 3: Ffi am y Llain

Mae'r aseinai yn cytuno i dalu'r ffi am y llain a chadw at delerau'r cytundeb.

Y ffi bresennol am y llain yw £ [ ] yr wythnos ☐ / y mis ☐ / bob chwarter ☐ / y flwyddyn ☐

[dileer fel y bo'n berthnasol]

Y dyddiad nesaf ar gyfer adolygu'r ffi am y llain yw [ ]

[mewnosoder dyddiad adolygu blynyddol]

Mae'r aseinai yn addo indemnio'r aseiniwr yn erbyn unrhyw hawliad neu achos cyfreithiol sy'n codi oherwydd bod yr aseinai wedi methu â gwneud y taliadau sy'n ddyledus ganddo neu wedi methu â chadw at delerau'r cytundeb.

| **Aseiniwr** | | **Aseinai** | |
|---|---|---|---|
| Enw | | Enw | |
| Llofnodwyd | | Llofnodwyd | |
| Dyddiad | | Dyddiad | |

### Nodiadau

(i) Yr aseiniwr yw'r person sy'n gwerthu neu'n rhoi'r cartref symudol yn anrheg ac yn aseinio'r cytundeb a'r aseinai yw'r person y caiff y cartref symudol ei werthu iddo neu ei roi iddo yn anrheg ac y caiff y cytundeb ei aseinio iddo.

(ii) O dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 y swm uchaf o gomisiwn y gall perchennog y safle ei gwneud yn ofynnol i chi ei dalu yw 10% o'r pris prynu. O dan reoliad 10 o Reoliadau Cartrefi Symudol (Gwerthu a Rhoi yn Anrheg) (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i chi dalu'r comisiwn i berchennog y safle o fewn 7 niwrnod ar ôl y dyddiad pan mae perchennog y safle yn darparu manylion y cyfrif banc i chi, y mae'n ofynnol i'r comisiwn gael ei dalu iddo.

 © Hawlfraint y Goron 2014